Papur gwybodaeth seneddol

Cyfiawnder yr Ifanc

Mae plant sydd mewn trwbl gyda'r gyfraith yn rhannu'r un nodweddion a'r ffactorau risg â'r rhai hynny y tybir eu bod 'mewn angen', sef pwynt a ddangosir mewn adroddiad diweddar oddi wrth Weinyddiaeth Adroddiadau Plant yr Alban.[1] Dylem hefyd sylwi bod plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr troseddau yn ogystal ag yn ddrwgweithredwyr, ac maent eu hunain yn pryderu am droseddu ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Mae'r plant hynny sy'n mynd yn destun i'r system cyfiawnder troseddol ymysg y rhai mwyaf difreintiedig a dônt o blith y cymunedau a'r teuluoedd tlotaf. Gwyddom, i lawer o blant, fod mân-droseddu yn rhan o'u magwraeth, ac felly hefyd ffurfiau eraill o ymddygiad gwrthryfelgar ac anodd, ac y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn 'tyfu drwy'r' ymddygiad hwn. Ond i rai plant, mae'n anos tyfu drwy'r ymddygiad troseddol ac mae'r costau tymor hir iddyn nhw, eu teuluoedd a'u cymunedau yn aruthrol. Gwyddom fod anfon plant i'r ddalfa yn aneffeithiol – bydd wyth allan o bob deg yn ail-droseddu o fewn dwy flynedd o'u rhyddhau[2] – a gall beri niwed pellach i blant sydd eisoes wedi eu niweidio. Rhaid i ni symud ymaith oddi wrth sôn am opsiynau 'llym' a 'hawdd' a dylem ganolbwyntio ar beth sydd fwyaf effeithiol i atal a gostwng troseddu ymysg ieuenctid.

Mae Barnardo's yn gweithio gyda phlant, teuluoedd a'u cymunedau i'w cefnogi i atal troseddu ymysg ieuenctid a chyda dulliau camu i mewn effeithiol i helpu i blant newid eu hymddygiad troseddol.

Barnardo's
CYMRU
RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Troseddu ymysg Ieuenctid yn y DU – y ffeithiau.

- Nid yw nifer y troseddau ymysg ieuenctid wedi cynyddu yn y pum mlynedd diwethaf,[3] i'r gwrthwyneb, fodd bynnag, mae nifer yr achosion o blant yn cael eu caethiwo wedi codi yn aruthrol – oddeutu 90% yng Nghymru a Lloegr rhwng 1992 a 2001.[4]
- Nid yw'r rhan fwyaf o droseddau y mae plant yn eu cyflawni yn rhai treisgar na rhywiol eu natur.
- Caiff wyth deg ac wyth y cant o'r plant sydd mewn caethiwed yng Nghymru a Lloegr eu dal mewn unedau adrannol carchardai.[5]
- Mae pedwar ar ddeg o blant rhwng 15 a 17 wedi marw o farwolaethau a achoswyd ganddynt eu hunain mewn caethiwed ers 1998.[6]

Mae priodweddau plant sy'n cael eu rhoi mewn caethiwed yn dangos faint o anfantais a niwed y maent wedi eu hwynebu:

- Bydd gan hyd at 41% ryw hanes o fod mewn gofal.[7]
- Bydd hyd at draean heb gael unrhyw ddarpariaeth addysgol cyn cael eu dedfrydu.[8]
- Mae gan bron eu hanner lefelau llythrennedd sy'n is na phlentyn arferol 11 mlwydd oed.[9]
- Dywedodd dwy ran o bump o'r bechgyn a chwarter o'r merched eu bod wedi dioddef o drais gartref.[10]

Beth y mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ei ddweud am blant mewn trwbl gyda'r gyfraith

- Dylid osgoi'r opsiwn achos barnwrol a lleoliadau sefydliadol pryd bynnag y bo hynny'n bosib – Erthygl 40
- Dylid dim ond arestio, cadw neu gaethiwo plentyn yn niffyg popeth arall ac am y cyfnod byrraf priodol – Erthygl 37
- Rhaid trin pob plentyn yr honnir neu y profir ei fod ef/hi wedi cyflawni trosedd, mewn modd :
  - sy'n gydnaws â hybu ymdeimlad y plentyn o urddas a gwerth
  - sy'n atgyfnerthu parch y plentyn tuag at hawliau dynol a rhyddid sylfaenol eraill; ac
  - sy'n rhoi ystyriaeth i oedran y plentyn a buddioldeb hybu i'r plentyn gael ei ailintegreiddio, ac i'r plentyn ysgwyddo rôl adeiladol yn y gymdeithas – Erthygl 37.

- Roedd un o bob tair merch ac un o bob ugain bachgen yn dweud eu bod wedi dioddef camdriniaeth rywiol o ryw fath.[10]
- Mae gan gymaint ag 85% ryw fath o broblem iechyd meddwl.[10]

Mae gan wledydd y DU ymatebion a deddfwriaeth wahanol i ddelio gyda chyfiawnder yr ifanc ac, o'r herwydd, gwahanol ganlyniadau ar gyfer plant mewn trwbl:

- Yng Ngogledd Iwerddon ceir oddeutu 200,000 o blant rhwng 10 ac 17 mlwydd oed,[11] a dedfrydwyd 880 am droseddau. O'r rhain, dedfrydwyd llai nag 1% i'w cadw mewn Canolfan Cyfiawnder yr Ifanc (darpariaeth gaeth).[12] Mae'r Asiantaeth Cyfiawnder yr Ifanc wedi dechrau gweinyddu cyfiawnder adferol wrth ddelio â throseddu ymysg ieuenctid a phwysleisia ddulliau o weithredu mewn partneriaeth er mwyn atal a gostwng troseddu.
- Yn yr Alban ceir dros 500,000 o blant rhwng 10 a 17 mlwydd oed[13]. Mae'r system Gwrandawiadau Plant yn delio gyda phlant sydd mewn trwbl nes eu bod yn 16 oed ac nid oes unrhyw unedau caethiwo fel rhan o'r carchardai ar gyfer plant dan yr oed hwn. Dedfrydwyd pedwar cant a hanner o bobl ifanc rhwng 16 a 17 mlwydd oed i gaethiwed yn 2003.[14]
- Yng Nghymru a Lloegr roedd poblogaeth 2003 o blant rhwng 10 a 17 mlwydd oed yn oddeutu 300,000 yng Nghymru a 5.4 miliwn yn Lloegr[15]; rhoddwyd dedfrydau i 92,531 o bobl ifanc yn y llys, ac roedd 6,200 o'r rhain yn ddedfrydau o gaethiwed.[16]

Mae ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn fater gwleidyddol cynyddol yng ngweinyddiaethau'r pedair gwlad.

- Yng Nghymru a Lloegr, pasiwyd y ddeddfwriaeth ymddygiad gwrth-gymdeithasol gyntaf ym 1999 ac ychwanegwyd a chryfhawyd y pwerau yn Neddf Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol 2003. Mae'r pwerau sy'n effeithio ar blant yn cynnwys Gorchmynion Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol (ASBOs), hysbysiadau cosb benodol, cyrffyw torfol, gwasgaru grwpiau (dau neu ragor) ac 'enwi a difrïo' – gan adael i fanylion plant mor ifanc â 10 gael eu cyhoeddi yn y cyfryngau, ac mewn pamffledi a phosteri pan fyddant yn destun ASBO. Rhwng Mehefin a Rhagfyr 2002, gwnaed 478 o ASBOs yn erbyn pobl ifanc. O'r rhain, torrwyd 170 (36%) ohonynt, gan arwain at 71 o ganlyniadau caethiwo.[17] Mae amodau'r ASBOs a roddir ar blant yn peri pryder; mae llawer ohonynt yn ymddangos fel eu bod yn hir iawn (mae bron pob gorchymyn gwahardd yn para dwy flynedd neu ragor) ac mae rhai bron yn 'amhosib', er enghraifft, cafodd tri brawd eu gwahardd am oes rhag mynd i ganol tref. Mae rhai o'r amodau, mewn gwirionedd, yn wrth-gynhyrchiol – cafodd un dyn ifanc ei wahardd rhag bod gyda chyd-fyfyriwr a oedd ar yr un cwrs coleg ag ef, tra cafodd un dyn ifanc ei wahardd o ran o'r dref lle'r oedd ei ganolfan adsefydlu lle gâi driniaeth am gyffuriau.

- Yn yr Alban ni phasiwyd y Ddeddf Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol tan 2004. Nid yw'n cynnwys pwerau cyrffyw ond mae'n cyflwyno monitro electronig, ac ni fesurwyd yr effaith hyd yma.
- Tra bod Cymru yn dod dan yr un fframwaith deddfwriaethol â Lloegr, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cynhyrchu Strategaeth Cyfiawnder yr Ifanc Cymru Gyfan.
- Yng Ngogledd Iwerddon, nid yw'r Gorchymyn Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol (Gogledd Iwerddon) wedi ei weithredu eto ond mae'n debygol o gynnwys yr un pwerau ag a geir yn y ddeddfwriaeth i Gymru a Lloegr. Mae pryder arbennig am y darpariaethau 'enwi a difrïo'.

Y realiti i blant a phobl ifanc

'Dylen nhw (yr heddlu) wybod ble mae pobl yn byw. Mae'r heddlu yn dda yma, maent yn gwybod ble'r ydym yn byw a beth yw'r problemau' *person ifanc 13 oed o'r Alban*

'Llefydd gwell ar gyfer pobl ifanc ddigartref, nid hosteli, mae'n anodd cadw oddi ar y cyffuriau ac allan o drwbl pan ydych chi'n byw mewn twll o le, dwi'n gorfod bod allan rhwng 9am a 5pm a does un man i fynd, a dim byd i'w wneud' *person ifanc 16 oed o Ogledd Orllewin Lloegr*

'Hoffwn weld mwy o gyfiawnder i bobl ifanc, caiff pawb ei bortreadu fel troseddwyr ond nid yw hynny'n wir mewn gwirionedd' *person ifanc 17 oed o Lundain*

'Gawn ni ragor o heddlu ar y strydoedd – rhai go iawn nid wardeiniaid' *person ifanc 17 oed o Lundain*

'Dylid bod rhagor o grwpiau ieuenctid ar gyfer pobl ifanc er mwyn eu hatal rhag mynd i drwbl' *person ifanc 12 oed o Gymru*

'Gwariwch lai ar garchardai a rhagor ar atal troseddu a chael pobl i roi'r gorau i gyffuriau' *person ifanc 16 oed o Ogledd Orllewin Lloegr*

Beth y mae Barnardo's yn ei wneud ym maes cyfiawnder yr ifanc

Mae Barnardo's yn credu bod gan bawb yr hawl i fyw mewn cymuned ddiogel a gweddus. Rydym yn ymwybodol o'r anhapusrwydd, yr ofn a'r gost economaidd y mae ymddygiad gwrth-gymdeithasol a throseddol cynhenid yn ei beri i gymunedau ac yn enwedig i'r trigolion sydd fwyaf agored i niwed, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Yn aml, yn y cymunedau sy'n wynebu tlodi eithafol, caledi economaidd ac amgylchedd gwael, y mae ymddygiad gwrth-gymdeithasol a gweithgaredd troseddol yn cael yr effaith fwyaf gwanychol.

Mae Barnardo's yn darparu gwasanaethau ledled y DU i bobl ifanc sydd mewn risg o droseddu ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol, neu sy'n gysylltiedig â hynny. Mae'r gwasanaethau hyn yn amrywio o:

- atal a chamu i mewn yn fuan drwy gynnig cefnogaeth magu plant i rieni, rhaglenni cynhwysiant i ieuenctid a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol
- dewisiadau yn lle rhaglenni caethiwo
- gwasanaethau cefnogi arbenigol a phenodol megis maethu Mechnïaeth a Remand a darparu gwasanaethau cwnsela mewn sefydliad troseddwyr ifanc
- gwasanaethau arbenigol megis y rhai hynny i blant sy'n niweidio eraill yn rhywiol
- gwasanaethau cynnal ieuenctid a chynlluniau hyfforddiant.

Mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio gyda phobl ifanc, eu teuluoedd a'r cymunedau i gefnogi'r bobl ifanc i newid eu hymddygiad a rhoi sylw i'r amgylchiadau sy'n cyfrannu at yr ymddygiad troseddol a gwrth-gymdeithasol.

Mae ein prosiectau cymunedol hefyd yn gweithio i ddwyn ynghyd gwahanol rannau o'r cymunedau er mwyn rhoi sylw i'w gwahaniaethau a chanfod atebion sy'n gwella ansawdd bywyd i bawb.

Credwn fod dulliau i atal, dulliau sy'n meithrin parch a chyfathrebu ac sy'n arwain at greu cymunedau sy'n gryf ac yn ddiogel i bawb, yn fwy effeithiol i ddelio gyda throseddau ymysg ieuenctid ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol na'r dull o gosbi sydd mewn bri ar hyn o bryd.

Y ffordd ymlaen

Er mwyn rhoi sylw i broblemau ymddygiad gwrth-gymdeithasol a throseddau ymysg ieuenctid, cred Barnardo's:

- Y dylid buddsoddi rhagor o adnoddau mewn gwasanaethau effeithiol yn y gymuned.
- Y dylid sefydlu mesurau i sicrhau mai dewis yn niffyg popeth arall yw caethiwed i blant, gan gydymffurfio ag Erthygl 37 Confensiwn y CU.
- Y dylid rhoi ystyriaeth wirioneddol i adolygu a chodi oedran cyfrifoldeb troseddol.
- Na ddylai gwasanaethau atal a chamu i mewn buan gael eu cyplysu â'r system cyfiawnder troseddol.
- Y dylid gwerthuso effaith y ddeddfwriaeth ymddygiad gwrth-gymdeithasol yng Nghymru a Lloegr, yn arbennig er mwyn gweld a yw achosion o dorri ASBOs yn arwain at fod rhagor o blant mewn caethiwed.
- Y dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o bob deddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant er mwyn sicrhau bod plant mewn trwbl yn cael eu hystyried yn bennaf fel plant mewn angen.

Manylion Cyswllt

Gwlad	Enw Cyswllt	Teleffon	E-bost
Lloegr/DU	Neera Sharma	020 8498 7729	neera.sharma@barnardos.org.uk
Yr Alban	Tam Baillie	0131 314 6668	tam.baillie@barnardos.org.uk
Cymru	Andy James	01792 463 357	andy.james@barnardos.org.uk
Gogledd Iwerddon	Margaret Kelly	02890 672 366	margaret.kelly@barnardos.org.uk
Ymholiadau seneddol at	Jo Ward	020 8498 7730	jo.ward@barnardos.org.uk

Cyfeiriadau

1. Gault, I (2003) *Study on youth offending in Glasgow.* Stirling: Gweinyddiaeth Adroddiadau Plant yr Alban http://www.scra.gov.uk/documents/Youth_Offending_Study.pdf (cyrchwyd 22 Mawrth 2005)
2. Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (2004) *Fortieth Report. Youth Offending: the delivery of community and custodial sentences (HC307).* Y Llyfrfa.
3. Y Comisiwn Archwilio (2004) *Youth Justice 2004: a review of the reformed youth justice system.* Y Comisiwn Archwilio
4. NACRO (2003) *A failure of justice: reducing child imprisonment.* NACRO
5. Y Ganolfan Ryngwladol dros Astudiaethau Carchardai (2003) *Prison brief for the United Kingdom: England and Wales.* Llundain: Coleg y Brenin
6. *Cofnod Ty'r Cyffredin* 7 Ion 2003 : Colofn 142W
7. Hazel, N et al. (2002) *Detention and training: assessment of the Detention and Training Order and its impact on the secure estate across England and Wales.* Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
8. NACRO (2003) *Counting the cost: reducing child imprisonment.* NACRO
9. Y Comisiwn Archwilio (2004) *Youth Justice 2004: a review of the reformed youth justice system.* Y Comisiwn Archwilio
10. Yr Uned Allgáu Cymdeithasol (2002) *Reducing re-offending by ex-prisoners.* Llundain: Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog
11. Ystadegau Gwladol (2003) *Cyfrifiad 2001: ystadegau allweddol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.* TSO
12. Lyness, D, McEnarney, R a Carmichael, M (golygyddion) *Digest of information on Northern Ireland criminal justice system 4.* Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon
13. Ystadegau Gwladol (2003) *Cyfrifiad 2001: ystadegau allweddol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.* TSO
14. Gweithrediaeth yr Alban (2003) Ystadegau Carchardai yr Alban, 2003, *Statistical Bulletin: Criminal Justice Series,* **CrJ/2004/6** http://www.scotland.gov.uk/stats/bulletins/00356.pdf (cyrchwyd 30 Mawrth 2005)
15. Ystadegau Gwladol (2003) *Cyfrifiad 2001: ystadegau allweddol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.* TSO
16. Swyddfa Gartref (2005) *Sentencing statistics 2003: England and Wales.* Bwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref 05/05
17. Y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol (2004) *Business meetings.* http://www.youth-justice-board.gov.uk/NR/rdonlyres/2A757E27-0725-47E8-98EE3A3200E0C5C/530/OctNovBusinessMeetingsMorningPresentation.ppt (cyrchwyd 30 Mawrth 2005)

Elusen gofrestredig Rhif 216250 731458O5

Barnardo's
CYMRU

RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Tanners Lane, Barkingside, Essex IG6 1QG, Ffôn: 020 8498 7345. **www.barnardos.org.uk**